## Sul y Blodau

**Darlleniad: Luc 19:28–44**

‘Bendigedig yw’r un sy’n dod yn frenin yn enw’r Arglwydd;
yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf.’

**Gweddi:**
Fel y dyrfa ar strydoedd Jerwsalem yr ydym ninnau, Iesu, yn dy groesawu’n frwdfrydig i’n hoedfa. Cydnabyddwn mai ti yw’r Brenin, ac mai ti’n unig sy’n hawlio ein gwrogaeth a’n haddoliad ni.

Ond diolch nad brenin rhyfelgar wyt ti, yn marchogaeth ar farch a mintai’n dy ddilyn, ond un a ddaeth ar ebol gan gyhoeddi teyrnas a ffordd tangnefedd. Fel y bu i ti wylo dros Jerwsalem, credwn dy fod o hyd yn wylo dros gyflwr ein byd. Maddau i ni nad ydym eto fel byd wedi gwrando ar dy neges a gweithredu; maddau nad ydym eto wedi dysgu dilyn ffordd tangnefedd. Gweddïwn y bydd y rhai treisgar a’r rhai sy’n caru rhyfel yn cael eu darostwng, ac y bydd cymod a thangnefedd rhwng pobl a chenhedloedd ein byd.

Ar ddechrau wythnos y Pasg, pâr ein bod yn dwyn ar gof yr hyn a ddigwyddodd, ac yn sylweddoli o’r newydd cymaint a gostiodd i ti, O! Iesu, i ddwyn gobaith a bywyd newydd i’n byd. Cawn ein hatgoffa, Arglwydd, pa mor anwadal ydym fel pobl, a bod y dyrfa oedd yn dy groesawu ddechrau’r wythnos yn dy watwar a’th wrthod erbyn ei diwedd. Gwared ni rhag bod yn rhan o’r dyrfa sy’n dy wrthod ac yn cefnu arnat heddiw. Helpa ni i roi croeso i ti yn ein bywyd, nid yn unig ar wyliau arbennig, ond bob dydd o’n hoes. Ac oherwydd ein bod yn dy adnabod, Iesu, fel ein Gwaredwr a’n Harglwydd, gallwn ninnau hefyd floeddio ‘Hosanna, Haleliwia’.

‘Hosanna, Haleliwia,
Fe anwyd Brawd i ni;
Fe dalodd ein holl ddyled
Ar fynydd Calfari;
Hosanna, Haleliwia,
Brawd ffyddlon diwahân;
Brawd erbyn dydd o g’ledi,
Brawd yw mewn dŵr a thân.’

Gweddïwn hyn yn enw Iesu Grist. Amen.

***Ifan Roberts***